

# *Bywyd ar incwm isel*

Realiti tlodi pobl hŷn yng Nghymru



# Byw ar incwm isel yn hwyrach mewn bywyd

**Dylai pob unigolyn hŷn gael safon ddigonol o fyw yn hwyrach mewn bywyd. Ni ddylai neb oddef gostyngiad trychinebus yn eu safon byw ar ôl ymddeol, na derbyn bywyd lle cânt eu gorfodi i ddewis rhwng hanfodion sylfaenol yn ddyddiol er mwyn cadw deupen llinyn ynghyd.**

Er hynny, mae enghreifftiau gwirioneddol yn yr adroddiad hwn o sut beth yw bywyd i bobl hŷn sy'n byw ar incwm isel. Mae pobl yn gorfod cyfaddawdu a gwneud penderfyniadau anodd bob dydd. Ar gyfer y rheiny sy'n dibynnu ar Bensiwn y Wladwriaeth neu bensiynau personol bach, gall fod yn anodd talu am hanfodion sylfaenol hyd yn oed.

Efallai ei fod wedi dechrau swnio fel cliché, ond mae rhai pobl hŷn yn wynebu gorfod dewis rhwng gwresogi a bwyta yn ystod y gaeaf. Mae rhai yn dewis gwresogi un ystafell yn unig yn ystod y dydd a naill ai cysgu mewn cadair yn ystod y nos neu orfod wynebu gwely oer.

## **Nid yw eraill yn bwyta pryd digonol bob dydd gan nad ydynt yn gallu fforddio gwneud hynny.**

Prin y mae rhai pobl hŷn yn gadael y tŷ ac nid ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol gan fod hyd yn oed y costau bach am y rhain, neu'r gost o gyrraedd yno, y tu hwnt iddyn nhw.

Mae rhai eraill yn lleihau faint o bethau y maent yn eu prynu i'w hunain gan eu bod nhw eisiau cynnal eu teuluoedd yn ariannol neu brynu anrhegion ar gyfer eu hwyron a'u hwyresau.

Mae canlyniadau'r holl ddewisiadau hyn yn rhoi iechyd a lles pobl mewn perygl neu'n gwaethygu problemau unigrywdd ac arwahanrwydd.



**Mae 84,000 o bobl hŷn yn byw mewn tlodi yng Nghymru**

Yn anffodus, nid yw'r rhain yn sefyllfaoedd eithriadol. Maent yn enghreifftiau o'r bobl hŷn sy'n ceisio help gan sefydliadau Age Cymru ledled Cymru bob dydd.

Mae'r gwasanaethau lleol y mae Age Cymru yn eu darparu, fel gwybodaeth a chyngor, gwneud y mwyaf o incwm ac eiriolaeth, yn chwarae rôl hanfodol o ran helpu pobl i fyw o fewn eu modd presennol, neu ei wella.

Mae'r enghreifftiau yn yr adroddiad hwn yn dangos sut mae gwaith gwasanaethau, staff a gwirfoddolwyr lleol a werthfawrogrir, wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

Mae'r enwau a'r lluniau wedi cael eu newid er mwyn i'r unigolion aros yn anhysbys, ond ni ddylai neb amau nad yw'r rhain yn bobl go iawn, a bod llawer mwy tebyg iddyn nhw.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a siaradodd â ni i rannu eu hanes neu a gyfrannodd at lunio'r adroddiad hwn.

**Mae gwerth £168 miliwn o Gredyd Pensiwn yn mynd heb ei hawlio yn flynyddol yng Nghymru**

# Sefyllfa ariannol pobl hŷn yng Nghymru

**Amcangyfrifir bod 84,000 o bobl hŷn yn byw mewn tlodi yng Nghymru ar hyn o bryd - 14% o bawb sy'n 65 oed neu'n hŷn.**

Mae hyn yn golygu bod pobl hŷn yn byw ar incwm aelwyd wythnosol o £220 neu lai yr wythnos, ar ôl tynnu eu costau tai.

Hyd yn oed yn fwy pryderus yw'r ffaith bod 8% o aelwydydd hŷn yng Nghymru yn byw mewn tlodi difrifol, sef £183.50 yr wythnos neu lai - ychydig yn llai na 50,000 o bobl.<sup>1</sup>

Yn yr un modd â grwpiau oedran eraill, mae hyd yn oed mwy o bobl hŷn yn byw ar incwm ychydig yn uwch na'r trothwy tlodi cymharol ond, i bob pwrpas, nid ydynt mewn sefyllfa well yn ymarferol. I nifer ohonynt, y rheswm dros hyn yw elfen gwarant isafswm incwm y Credyd Pensiwn, sy'n gweithredu fel incwm ychwanegol at Bensiwn y Wladwriaeth, neu oherwydd pensiynau galwedigaethol neu bersonol bach.

## Beth yw tlodi?

Y ffordd fwyaf cyffredin o ddiffinio tlodi yw tlodi cymharol. Mae hyn yn golygu yr ystyrir bod aelwydydd ag incwm sy'n is na 60% o incwm aelwyd canolrifol y DU yn byw mewn tlodi. Ystyrir bod y rheiny sydd ag incwm sy'n is na 50% o'r incwm aelwyd canolrifol yn byw mewn tlodi difrifol.

**Yn ôl y ffigurau swyddogol diweddaraf, trothwy tlodi'r DU yw £220 yr wythnos a'r trothwy tlodi difrifol yw £183.50 yr wythnos (prisiau 2011/12).**

Caiff y ffigurau hyn eu cyfrifo yn seiliedig ar incwm ar ôl tynnu costau tai. Mae niferoedd uwch o bobl hŷn (114,000 o bobl yng Nghymru) yn is na'r trothwy tlodi cymharol cyn tynnu costau tai. Fodd bynnag, yn gyffredinol, defnyddir y ffigur 'ar ôl tynnu costau tai' ar gyfer pobl hŷn gan fod llai ohonynt yn talu morgeisi neu gostau tai eraill, na'r boblogaeth gyffredinol. Ond, mae hyn yn cuddio rhai anawsterau penodol ar gyfer pobl hŷn sy'n talu rhent neu morgeisi.

Y brif ymagwedd arall at ddiffinio tlodi yw ystyried mesurau amddifadedd. Mae hyn yn golygu cymharu safonau byw pobl a mynediad at nwyddau a gwasanaethau penodol sy'n

'nodweddiadol' mewn cymdeithas, yn ogystal â'u hincwm.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyhoeddi dangosydd amddifadedd sylweddol, sy'n ystyried ffactorau fel:

- rhwydweithiau cymdeithasol a chymorth
- costau a threuliau (gan gynnwys costau ychwanegol a chyfyngiadau oherwydd anabledd neu salwch)
- ble mae rhywun yn byw, gan gynnwys eu cartref a'u hardal leol
- cynilion a gallu ariannol
- agweddau a disgwyliadau.

Cafodd 9% o'r bobl 65 oed a'n hŷn (dros 50,000 o bobl) yng Nghymru eu dosbarthu'n bobl a oedd yn byw mewn sefyllfa amddifadedd sylweddol yn 2011/12, sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer.<sup>2</sup>

Er symrlwydd, rydym wedi defnyddio'r mesur tlodi cymharol (60% o'r incwm aelwyd canolrifol ar ôl cyfrifo costau tai) ar gyfer y ffigurau a ddefnyddir mewn manau eraill yn yr adroddiad hwn.

<sup>1</sup>Households Below Average Income 2011/12, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Mehefin 2013

<sup>2</sup>ibid.

Yn y 1990au ac yn gynnar yn y 2000oedd, fe wnaed ychydig o gynnydd o ran lleihau tlodi pensiynwyr yn y DU. Roedd polisiâu newydd a oedd yn rhoi mwy o arian yn uniongyrchol ym mhocedi pobl hŷn, fel cyflwyno'r Taliad Tanwydd Gaeaf ym 1997 a'r Credyd Pensiwn yn 2003, yn golygu cynnydd gwirioneddol mewn incwm llawer o bobl hŷn.

Yng Nghymru, fe wnaeth polisiâu Llywodraeth Cymru, fel teithio rhad ac am ddim ar fysiau a chynorthwyo pobl i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi, helpu i leihau'r costau mawr a oedd yn wynebu aelwydydd hŷn.

Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae cynnydd wedi oedi. Gan adlewyrchu gweddill cymdeithas, mae cyllid llawer o bobl hŷn wedi dod o dan bwysau cynyddol oherwydd cyfuniad o gostau uwch nwyddau hanfodol fel bwyd a thanwydd, cyfraddau llog isel ar gynilion a chyfraddau blwydd-daliadau sylweddol lai ar gyfer y rheiny sy'n cyrraedd oed ymddeol gyda phensiynau preifat.

Mae hyn wedi golygu bod incwm llawer o bobl hŷn wedi aros yn sefydlog (ond wedi lleihau mewn termau real) tra bod prisiau llawer o'r pethau y maen nhw'n eu prynu wedi cynyddu'n gyflym. Mae aelwydydd hŷn yn dueddol o wario cyfran uwch o'u hincwm ar nwyddau hanfodol, sy'n eu gwneud nhw'n arbennig o agored i effeithiau cynnydd mewn prisiau.

Mae cynnydd diweddar yn lefel Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth, diolch i bolisi 'clo triphlyg' Llywodraeth y DU, wedi cael ei groesawu'n fawr. Fodd bynnag, mae'n cuddio'r ffaith bod Pensiwn y Wladwriaeth yn dechrau o lefel sylfaenol isel iawn ac, yng Nghymru, nifer cymharol fach o bobl hŷn sydd ag incwm ychwanegol o bensiynau galwedigaethol neu bersonol.

**Nid yw 70% o aelwydydd pensiynwyr sy'n byw mewn tlodi yn derbyn unrhyw rai o brif fudd-daliadau'r wladwriaeth**



### Mrs Parry, Abertawe

Mae Mrs Parry, yn wraig gweddw 91 oed sydd yn byw mewn fflat gyngor fach. Mae ganddi hi amryw o gyflyrau meddygol.

Pan aeth Age Cymru Swansea Bay i ymweld â Mrs Parry, roedd hi mor dlawd roedd hi'n sychu papur toiled ar y rheiddiadur i'w ailddfyndio. Byddai ei ffrindiau yn plicio tatws, eu rhoi nhw mewn sosban. Pob dydd, byddai'n cymryd un neu ddwy a'u berwi nhw.

Cynhaliodd y cynghorydd archwiliad budd-daliadau llawn, a ddatgelodd fod Mrs Parry yn derbyn Pensiwn y Wladwriaeth a phensiwn galwedigaethol bach ei diweddar ŵr. Roedd yn ofni na fyddai'n gallu talu ei rhent a'r Dreth Gyngor ac y byddai'n cael ei throï allan.

Roedd Age Cymru Swansea Bay yn gallu ei chynghori y byddai ganddi hawl i Gredyd Pensiwn ar unwaith, a fyddai'n rhoi hawl iddi gael y Dreth Gyngor a rhent yn rhad ac am ddim, a help gyda chostau dannedd a sbectol. Aeth teimladau Mrs Parry yn drech na hi, a dechreuodd grio.

O ganlyniad i'r ymweliad, cynyddodd incwm wythnosol Mrs Parry o £141.64 i £328.51. Nid oes rhaid iddi dalu rhent na'r Dreth Gyngor o £78 yr wythnos mwyach ychwaith.

Gall Mrs Parry nawr fforddio bwyd maethlon bob dydd, yn ogystal â nwyddau tŷ, ac mae'n cael cynnig cymorth arall gan Age Cymru Swansea Bay.



## Budd-daliadau heb eu hawlio

Mae hyn yn golygu y dylai llawer o bobl hŷn gael cymorth y Credyd Pensiwn sy'n dibynnu ar brawf modd. Mae hwn yn fudd-dal pwysig gan ei fod yn ychwanegu at incwm wythnosol pobl i lefel isafswm gwarantedig a osodwyd gan y Llywodraeth. Diben yr incwm hwn yw sicrhau bod pobl ychydig yn uwch na'r trothwy tlodi, a gellir ei ystyried yn gydnabyddiaeth o lefel gymharol isel Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

Gwaetha'r modd, mae'r Credyd Pensiwn wedi cael ei dan-hawlio ers iddo gael ei gyflwyno. Amcangyfrifir nad yw oddeutu traean o bobl hŷn cymwys yn ei hawlio nac yn ei dderbyn.<sup>3</sup> Mae hyn yn rhwystr sylweddol i ymdrechion i leihau lefelau tlodi pensiwnwyr.

Mae Llywodraeth y DU wedi amcangyfrif bod gwerth Credyd Pensiwn heb ei hawlio rhwng £1.9 a £2.8 biliwn y flwyddyn ledled y DU. Mae amcangyfrif ceidwadol yn seiliedig ar y cyfanswm hwn o Credyd Pensiwn heb ei hawlio yn £168 miliwn yng Nghymru. Dylai'r incwm hwn fod yn cael ei rannu rhwng oddeutu 94,800 o bobl nad ydynt yn ei hawlio ar hyn o bryd. Byddai hyn yn golygu incwm heb ei hawlio ychwanegol o £34 yr wythnos ar gyfartaledd, neu £1,772 y flwyddyn<sup>4</sup> - arian a allai wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau llawer o bobl hŷn.

Mae'r rhesymau dros y tan-hawlio hwn yn cynnwys: diffyg gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael; pobl y credu na fyddant yn gymwys; stigma ynghylch gofyn am help; amharodrwydd i ddatgelu gwybodaeth ariannol bersonol; cael eu gwrthod oherwydd camgymeriad wrth ymgeisio; neu beidio â derbyn cymorth i ymgeisio.

Mae'r rhain yn gyffredin â budd-daliadau eraill i bobl hŷn, gan gynnwys Lwfans Gweini, Lwfans Byw i'r Anabl a Lwfans Gofalwr. Fodd bynnag, mae'r Credyd Pensiwn yn hanfodol i'r ymdrechion i leihau tlodi gan mai dyna ei fwriad ac oherwydd ei fod yn gweithredu fel porth i amrywiaeth o hawliau eraill hefyd.



### Mr Lewis, Aberteifi

Aeth Mr Lewis at Age Cymru Ceredigion ar ôl i'w fudd-daliadau ddod i ben pan gyrhaeddodd 65 oed. Derbyniodd lythyr gan y cyngor yn datgan bod ei Fudd-dal Tai wedi dod i ben a bod ganddo ôl-daliadau rhent. Roedd wedi bod i swyddfa'r Ganolfan Byd Gwaith a awgrymodd iddo fynd at Age Cymru Ceredigion i gael cymorth.

Cwblhawyd cais dros y ffôn am Gredyd Pensiwn, a dyfarnwyd y gyfradd lawn o £142.70 i Mr Lewis, a dalwyd i'w fanc 3 diwrnod yn ddiweddarach. Yn flaenorol, roedd wedi bod yn byw ar £70 yr wythnos, felly roedd yn falch iawn â'r cynnydd. Cadarnhaodd y cyngor hefyd fod ei Fudd-dal Tai wedi cael ei adfer a'i ôl-ddyddio i'r adeg pryd y daeth y budd-daliadau eraill i ben.

Galwodd Mr Lewis hebio'r swyddfa i ddweud diolch ac i ddweud ei fod newydd fod yn siopa bwyd, ac "Roedd yn braf gallu rhoi pethau yn fy masged heb orfod meddwl a ydw i'n gallu eu fforddio. Dw i wedi prynu hwyaden wedi'i rhewi fel trîr ar gyfer dydd Nadolig hyd yn oed!"

<sup>3</sup>Income Related Benefits: Estimates of Take-up, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2012

<sup>4</sup>Cyfrifiadau Age Cymru yn seiliedig ar amcangyfrifon poblgaeth ac Income Related Benefits: Estimates of Take-up, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2012

Efallai mai'r ffaith fwyaf trawiadol yw nad yw 70% o aelwydydd pensynwyr sy'n byw mewn tldi ac 80% o aelwydydd sy'n byw mewn tldi difrifol, yn derbyn unrhyw rai o brif fudd-daliadau'r wladwriaeth (Credyd Pensiwn, Budd-dal Tai, Lwfans Gweini neu Lwfans Byw i'r Anabl).<sup>5</sup> Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd cyrraedd y bobl hynny a darparu'r cymorth ariannol y maen nhw'n debygol o fod â hawl iddo ond nid ydynt yn ei dderbyn.

Ym mhob achos, gall gwasanaethau gwneud y mwyaf o incwm, yn ogystal â gwybodaeth a chynghor, chwarae rôl hanfodol wrth helpu pobl i nodi a hawlio'r ffynonellau cymorth sydd ar gael iddyn nhw. Yn aml, darperir y gwasanaethau hyn gan y trydydd sector, ond mae cyllid yn brin ac mae'r adnoddau presennol yn gorfod ymestyn yn bell.

## Cwtogi

Amlygodd ymchwil a gynhaliwyd gan Age Cymru eleni,<sup>6</sup> fod dros chwarter (28%) y bobl 65 oed a hŷn yng Nghymru yn methu fforddio popeth sydd ei angen arnynt heb boeni a ydynt yn gallu ei fforddio. Mae hyn yn gyfystyr â 168,000 o bobl – ddwywaith cymaint â'r ffigur tldi swyddogol.

Biliau ynni oedd yr achos pryder mwyaf i bobl hŷn. Nododd 57% ohonynt eu bod nhw'n poeni ynghylch gallu fforddio biliau nwy a thrydan, ac roedd nifer sylweddol yn pryderu am filiau dŵr neu'r Dreth Gyngor.

Yn fwyaf pryderus yw'r ffaith bod mwy na thraean o aelwydydd pobl wedi ymddeol wedi adrodd eu bod wedi cwtogi meysydd gwariant yn y blynyddoedd diwethaf:

- Mae 36% wedi lleihau faint o fwyd neu ansawdd y bwyd y maent yn ei brynu
- Mae 35% wedi lleihau faint o wres neu drydan y maent yn ei ddefnyddio
- Mae 34% yn mynd allan yn llai aml neu wedi lleihau faint o weithgareddau cymdeithasol y maent yn cymryd rhan ynddynt
- Mae 37% wedi prynu llai o nwyddau defnyddwyr neu rai rhatach.

Mae'r ffigurau hyn yn gyfystyr ag oddeutu 200,000 o bobl hŷn yng Nghymru ac mae'r tebygrwydd

trawiadol rhwng yr ymatebion i gategorïau gwahanol yn awgrymu'n gryf bod yr un aelwydydd wedi lleihau eu gwariant mewn nifer o feysydd.

Yn ogystal â hyn, nododd 7% o bobl 65 oed a hŷn eu bod nhw wedi mynd i fwy o ddyled yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sy'n gyfystyr â 42,000 o bobl.

## O ganlyniad, credwn fod achos i bryderu'n fawr am iechyd ariannol llawer o bobl hŷn yng Nghymru.



### Mr a Mrs Greer, Pontypridd

Cysylltodd Mr Greer ag Age Cymru i ofyn a allai gael help ar gyfer costau angladd ei fam 105 oed, a oedd wedi marw'n ddiweddar. Mae gan ei wraig Glefyd Parkinson, ac roeddent yn ei chael hi'n anodd ymdopi'n ariannol.

Cynigwyd archwiliad budd-daliadau i Mr a Mrs Greer, a ddangosodd fod gan y cwmpwl hawl i Gredyd Pensiwn, a bod gan Mrs Greer hawl i raddfa uwch y Lwfans Gweini. Helpodd cynghorydd Age Cymru nhw i wneud cais am yr rhain, ac am Lwfans Gofalwr ar gyfer Mr Greer.

Roedd y ceisiadau hyn i gyd yn llwyddiannus, a arweiniodd at incwm ychwanegol o oddeutu £240 yr wythnos i Mr a Mrs Greer.

## Mae 8% o aelwydydd hŷn yng Nghymru yn byw mewn tldi difrifol

<sup>5</sup>Households Below Average Income 2011/12, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Mehefin 2013

<sup>6</sup>Arolwg Barn ICM ar gyfer Age Cymru, Chwefror 2014. (Sampl: 1,000 o oedolion 18+ oed yng Nghymru)

## Patrymau tlodi yn hwyrach mewn bywyd

Er bod lefelau cyffredinol tlodi pensiywyr yn lleihau, roedd y ffigurau hyn yn cuddio grŵp o bobl hŷn a oedd yn byw ar incwm isel iawn, gydag ychydig o adnoddau ariannol, os o gwbl.

Bydd llawer o bobl hŷn mewn tlodi wedi byw ar incwm isel yn ystod eu bywyd gweithio a heb gael cyfle i gronni pensiwn neu gynilion ar gyfer ymddeoliad. Gall rhai eraill fod wedi dioddef gostyngiad sylweddol yn eu hincwm oherwydd ymddeoliad, profedigaeth neu amgylchiadau eraill.

Ar ôl ymddeol, mae gan y rhan fwyaf o bobl hŷn incwm penodol ac maent yn dibynnu'n drwm ar gynnydd blynyddol i Bensiwn y Wladwriaeth neu fudd-daliadau eraill, neu'r llog y maent yn ei dderbyn (bach iawn fel arfer) ar gynilion neu fuddsoddiadau. Gall hyn olygu nad yw aelwydydd pobl hŷn yn gallu ymdopi cystal â biliau sylweddol, costau sylweddol neu gynnydd sylweddol mewn prisiau. Mae llawer yn byw 'o'r llaw i'r genau', gan ymestyn incwm eu pensiwn wythnosol cyn belled ag yr aiff.

Yn gyffredinol, **pobl hŷn sengl sy'n byw ar eu pennau eu hunain yw'r grŵp mwyaf yr effeithir arno gan dlodi pensiywyr.** Yn aml, mae gweddwon yn colli incwm partner ac nid oes ganddynt eu hawl pensiwn eu hunain gan y buont yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol 'cyfradd is' menyw briod.

### Tueddiadau tlodi

- Yn gyffredinol, po hynaf yw unigolyn, y mwyaf tebygol ydyw bod ganddo incwm isel.<sup>7</sup>
- Mae cyfran uwch o bensiwnyr sengl sy'n byw ar eu pennau eu hunain mewn aelwydydd incwm isel nag unrhyw grŵp arall mewn cymdeithas,<sup>8</sup> ac mae pobl hŷn sengl yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi na chyplau, ni waeth beth fo'u hoedran.<sup>9</sup>



- Mae pensiywyr heb bensiwn galwedigaethol neu bersonol yn llawer mwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi na'r rheiny ag ychydig o incwm o'r ffynonellau hyn.
- Nid yw 70% o aelwydydd pensiywyr sy'n byw mewn tlodi ac 80% o aelwydydd sy'n byw mewn tlodi difrifol yn derbyn unrhyw rai o brif fudd-daliadau'r wladwriaeth ar hyn o bryd.
- Mae pensiywyr sy'n byw mewn teuluoedd lle mae rhywun yn anabl bron tair gwaith yn fwy tebygol o fod ag amddifadedd sylweddol o'u cymharu â'r rheiny sy'n byw mewn teuluoedd lle nad oes unrhyw un anabl.
- Mae pensiywyr sy'n byw mewn aelwyd â phen teulu o grŵp lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod mewn aelwyd incwm isel. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos aelwydydd â phen teulu o darddiad ethnig Pacistanaid neu Fangleidhaidd.<sup>10</sup>

Yn gyffredinol, mae lefelau tlodi ac allgáu cymdeithasol uchaf ymhlith menywod hŷn sy'n byw ar eu pennau eu hunain.<sup>11</sup>

<sup>7</sup>Households Below Average Income 2011/12, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Mehefin 2013

<sup>8</sup>ibid.

<sup>9</sup>Gender, marital status, and ageing: linking material, health, and social resources, Arber, S., Journal of Ageing Studies. 2004

<sup>10</sup>Households Below Average Income 2011/12, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Mehefin 2013

<sup>11</sup>Pensioners, poverty and social exclusion, Patsios, D., Poverty and social exclusion in Britain: the millennium survey. 2006



# Yr atebion

## Pensiynwyr y dyfodol

Yn y blynyddoedd diweddar, mae polisi Llywodraeth y DU wedi canolbwyntio ar ddiwygiadau i bensiynau a ddylai helpu i sicrhau ffynhonnell fwy dibynadwy o incwm ar gyfer pobl sy'n cyrraedd oed ymddeol yn y dyfodol.

Mae'r rhain yn cynnwys diwygiadau i Bensiwn y Wladwriaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a fydd yn sicrhau bod pawb sydd â 30 mlynedd o gyfraniadau yn derbyn pensiwn unigol y wladwriaeth sydd ychydig yn fwy na'r warant incwm Credyd Pensiwn presennol i unigolyn sengl (£148.35 yn 2014). Mae hyn yn gydnabyddiaeth a groesawir o'r angen i symud o'r ddibyniaeth bresennol ar brofi modd, a bydd yn darparu incwm uwch ar gyfer pobl hŷn ar incwm isel yn y dyfodol.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn cyflwyno system o 'gofrestru awtomatig' ar gyfer pensiynau gweithle a fydd, gobeithio, yn cynyddu nifer y bobl a fydd â darpariaeth bensiwn ychwanegol yn y dyfodol.

Dylai newidiadau eraill a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yng nghyllideb 2014 roi mwy o hyblygrwydd i bobl o ran sut i ddefnyddio eu cronfeydd pensiwn, a gallent ddarparu ateb i gyfraddau blwydd-daliadau digyffelyb o isel.

## Pensiynwyr presennol

Mae gan y polisiâu uchod y potensial i wella incwm pensiwn llawer o bobl hŷn yng nghenedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, ni fyddant yn gwella incwm pobl hŷn sy'n byw mewn tlodi heddiw, y mae eu straeon wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

I wneud yn siwr nad yw'r bobl hyn yn cael eu gadael ar ôl, mae'n rhaid i ni ddatblygu strategaeth gydlynol i'w tynnu o dlodi trwy wella eu hincwm.

Pensiwn y wladwriaeth yw'r ffynhonnell incwm fwyaf i'r mwyafrif o bensiynwyr o hyd. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno 'clo triphlyg' sy'n golygu, tan ddiwedd y Senedd hon, y bydd

pensiwn sylfaenol y wladwriaeth yn cynyddu yn ôl pa un bynnag yw'r uchaf o ran enillion, prisiau neu 2.5%. Mae hyn eisoes wedi dechrau cynyddu incwm pobl hŷn presennol yn fwy cyson (a lleihau lefelau tlodi ychydig bach). Mae'n rhaid ymroi i'r polisi hwn yn y tymor hir.

## Fodd bynnag, bydd yn cymryd amser maith i bensiwn sylfaenol y wladwriaeth ar gyfer pensiynwyr presennol eu diogelu yn erbyn tlodi.

Er mwyn gwneud cynnydd gwirioneddol tuag at waredu tlodi pensiynwyr, mae'n rhaid gwneud mwy o ymdrech i sicrhau bod pob unigolyn hŷn sydd â hawl i gael budd-daliadau ariannol eraill yn eu derbyn nhw. Amcangyfrifir, petai pob budd-dal sy'n amodol ar brawf modd yn cael ei dderbyn, gellid lleihau tlodi pensiynwyr oddeutu 40%.<sup>12</sup>

Rhwng mis Rhagfyr 2010 a mis Mawrth 2011, cynhaliodd yr Adran Gwaith a Phensiynau astudiaeth beilot fach i weld a allai ymagwedd wahanol at hawlio Credyd Pensiwn gynyddu'r nifer oedd yn ei dderbyn. Rhoddwyd taliadau uniongyrchol i 2,000 o bobl a oedd yn debygol o fod yn gymwys, yn seiliedig ar ddata a oedd eisoes gan Lywodraeth y DU, ac fe'u hataliwyd ar ôl 12 wythnos, gan wahodd y bobl i wneud cais i barhau i'w derbyn. Yn anffodus, oherwydd cost yr astudiaeth beilot, barnwyd ei bod yn aflwyddiannus, er yr arweiniodd at gynnydd yn nifer y bobl a dderbyniodd y budd-dal wedi hynny.

**Daeth y rhwydwaith Age Cymru a chyfanswm o £13 miliwn mewn hawliadau ychwanegol i bobl hŷn yng Nghymru yn ystod 2012/13.**



<sup>12</sup>The implications of Government policy for future levels of pensioner poverty, Y Sefydliad Polisi Pensiynau, 2011





### Mrs Jenkins, Caerdydd

Mae Mrs Jenkins yn 85 oed ac yn byw ar ei phen ei hun. Cafodd ddiagnosis o glefyd Alzheimer yn 2012 ac mae ei merched yn gofalu amdani. Roedd yn derbyn Pensiwn y Wladwriaeth a phensiwn galwedigaethol bach ei diweddar wŷr, ac roedd ganddi ychydig bach o gynilion. Ar yr incwm hwn, roedd yn anodd iawn iddi allu fforddio popeth yr oedd ei angen arni i barhau i fyw ar ei phen ei hun.

Yn yr haf 2013, cynorthwyodd Age Cymru deulu Mrs Jenkins i wneud cais am Lwfans Gweini i'w helpu i barhau i fyw'n annibynnol. Helpodd cynghorydd Age Cymru nhw i lenwi'r ffurflenni a dywedodd wrthynt ba wybodaeth oedd yn berthnasol. Roedd Mrs Jenkins yn gymwys i gael y raddfa uwch, sy'n werth £81.30 yr wythnos, ac ôl-daliad o fwy na £600.

Awgrymodd y cynghorydd fod Mrs Jenkins yn gwneud cais am Gredyd Cynilion Pensiwn hefyd, ac mae bellach yn derbyn £11.88 yr wythnos. Ond, o ganlyniad, cafodd ei hailasesu gan y cyngor ar gyfer costau gofal cartref, ac mae'n rhaid iddi nawr dalu £9.50 am ymweliad wythnosol â chanolfan ddydd.

Roedd teulu Mrs Jenkins wedi gwneud ymholiad ynglŷn â disgownt i'r Dreth Gyngor oherwydd ei chlefyd Alzheimer, ond heb lwyddiant. Dywedodd cynghorydd Age Cymru wrthynt ba ffurflen i wneud cais amdani ac mae hyn wedi cael ei gymeradwyo nawr hefyd.

Mae Mrs Jenkins bellach yn derbyn cyfanswm incwm ychwanegol o £93 yr wythnos, ôl-daliadau o £1,263 am yr hyn oedd yn ddyledus iddi, a swm sylweddol ar ei Threth Gyngor.

## Gwasanaethau cyngor yng Nghymru

Roedd astudiaeth beilot yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos yn glir mai'r ffordd fwyaf effeithiol o gynyddu nifer y bobl sy'n derbyn budd-daliadau yw trwy ymweliadau cartref a chyngor wyneb yn wyneb. Er y barnwyd bod yr ymagwedd hon yn rhy ddrud i'r Adran Gwaith a Phensiynau ei hymestyn, dyma'r union ymagwedd lwyddiannus a fabwysiadwyd gan sefydliadau Age Cymru a gwasanaethau cyngor dibynadwy eraill y trydydd sector.

Mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol i'w chwarae o ran sicrhau bod gan bobl Cymru fynediad at y math hwn o wasanaethau gwybodaeth a chyngor.

Mae wedi darparu cyllid a groesawir i nifer o wasanaethau gwybodaeth a chyngor yng Nghymru, gan gynnwys partneriaeth Age Cymru i gyflwyno a datblygu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ymhellach ar lefelau lleol a chenedlaethol. Mae'r bartneriaeth hon yn cynnwys rhwydwaith o bartneriaid lleol Age Cymru sy'n darparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor dibynadwy a gwerthfawr ledled Cymru, gan gynnwys wyneb yn wyneb mewn swyddfydd lleol ac yng nghartrefi pobl, neu dros y ffôn.

### Sicrhaodd gwasanaethau lleol a chenedlaethol Age Cymru gyfanswm o £13 miliwn mewn hawliadau ychwanegol i bobl hŷn yng Nghymru yn ystod 2012/13.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal adolygiad o wasanaethau cyngor yng Nghymru, yn sgil yr heriau digynsail y mae darparwyr dielw yn eu hwynebu oherwydd gostyngiadau i gyllid a chynnydd mewn galw. Mae gwasanaethau gwybodaeth a chyngor Age Cymru wedi wynebu'r union heriau hyn ers y dirywiad economaidd.

Nid oedd casgliadau'r adolygiad wedi cael eu cyhoeddi ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, ond gobeithiwn y bydd cyfoeth y dystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i derbyn yn ei galluogi i greu cynllun clir ar gyfer sut y bydd yn helpu

i gefnogi sector cyngor cryf, addas i'r diben a hygyrch yng Nghymru.

Yn bwysig iawn, mae'n rhaid i hyn sicrhau bod cyngor wedi'i deilwra ar gael i'r grwpiau sydd ei angen, gan adeiladu ar gryfderau darpariaeth bresennol y trydydd sector. Ar gyfer pobl hŷn, mae hyn yn aml yn golygu darparu cyngor wyneb yn wyneb ac, yn hanfodol, cymorth i wneud y mwyaf o incwm ar gyfer y rheiny ar incwm isel, yn sgil y problemau ariannol a amlygir yn yr adroddiad hwn.

## Trechu Tlodi

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn 2012 ac mae'n llunio adroddiadau cynnydd blynyddol sy'n amlinellu'r ffyrdd y mae'n defnyddio ei phwerau a'i chyfrifoldebau i leddfu effeithiau diwygiadau lles a chynorthwyo pobl ag incwm isel.

Yn anffodus, mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi cyfredol ond yn cyfeirio'n fras at bobl hŷn ac nid yw'n cynnwys llawer o gamau gweithredu penodol i helpu pobl hŷn sy'n byw ar incwm isel iawn. Mae'n rhaid i hyn newid, a chredwn y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi i ymroi i sicrhau bod pobl hŷn ar incwm isel yn cael cymorth i wneud cais am yr holl hawliadau sydd ar gael iddyn nhw.

Petai Llywodraeth Cymru, trwy weithio gydag awdurdodau lleol Cymru, yn ymroi i sicrhau bod gwasanaethau gwneud y mwyaf o incwm ar gael i bobl hŷn yng Nghymru, gallai wneud cyfraniad sylweddol at leihau tlodi pensiywyr. Mae'n sefyllfa lle mae pawb ar eu hennill: mae'r gwasanaethau hyn yn rhoi arian yn uniongyrchol i bocedi pobl hŷn ar incwm isel yng Nghymru, heb lawer o gost i gyllideb Llywodraeth Cymru ei hun.

Yn ogystal â bod o fudd i'r bobl hŷn y maent yn eu cynorthwyo, mae'r gwasanaethau hyn yn dod ag arian ychwanegol i gymunedau Cymru ac economi Cymru yn ddyddiol. Mae llawer mwy o botensial digyffwrdd gan ystyried y gallai gwerth y Credyd Pensiwn heb ei hawlio yng Nghymru fod hyd at £168 miliwn y flwyddyn. Mae hwn yn arian y mae gan bobl hŷn yng Nghymru hawl iddo, a gallai wneud gwahaniaeth gwirioneddol i lawer o fywydau.



### Mrs Matthews, Caernarfon

Mae Mrs Matthews yn 82 mlwydd oed ac yn byw ar ei phen ei hun. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae ei golwg wedi dirywio ac mae hefyd yn dioddef o gric y cymalau, asthma, afiechyd yr ysgyfaint ac anymataliaeth. Mae hi hefyd yn dibynnu ar ei chymydog am gymorth a chefnogaeth.

Cysylltodd ei chymydog â Age Cymru i ddweud am ei phryderon nad oedd Mrs Matthews yn derbyn unrhyw gymorth corfforol nac ariannol. Aeth swyddog budd-daliadau Age Cymru Gwynedd a Môn i ymweld â Mrs Matthews a'i hasesu am fudd-daliadau a'i helpu i wneud cais am Lwfans Gweini. Wedi apelio, dyfarnwyd bod Mrs Matthews yn gymwys i gael y raddfa uwch, sy'n werth £81 yr wythnos.

Mae hyn wedi cynnyddu incwm wythnosol Mrs Matthews a hefyd wedi agor y drws iddi hi dderbyn budd-daliadau eraill. Dywedodd Mrs Matthews nad oedd hi'n ymwybodol fod cymorth o'r fath "ar gael i bobl fel hi, sydd yn methu ymdopi ar bennau eu hunain."

Derbyniodd Mrs Matthews ôl-daliad bach y'i defnyddiodd i brynu teledu mwy, gan iddi orfod rhoi'r gorau i wyllo teledu cryn amser yn ôl oherwydd y dirywiad yn ei golwg.

# Mae angen gweithredu

## Credwn ei bod hi'n bryd dyblu ymdrechion i drechu tlodi pensiynwyr yng Nghymru.

Mae Age Cymru yn galw am weithredu gan yr awdurdodau yn y chwe maes isod:

### Gwybodaeth, cyngor a gwneud y mwyaf o incwm

Mae tystiolaeth cryf bod y rhain yn helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau a hawliadau. Y llynedd, sicrhodd rhwydwaith Age Cymru £13 miliwn mewn hawliadau ychwanegol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru trwy wasanaethau cyngor a gwneud y mwyaf o incwm.

### Y camau angenrheidiol

- Dylai Llywodraeth Cymru greu cynllun eglur ar gyfer sut y bydd yn helpu i gefnogi sector cyngor cryf, addas i'r diben a hygyrch yng Nghymru, yn dilyn ei Hadolygiad o Wasanaethau Cyngor.
- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod cyllid digonol ar gael ledled Cymru, fel bod gan bob unigolyn hŷn ar incwm isel fynediad at wasanaethau gwneud y mwyaf o incwm, a fydd yn eu helpu i wneud cais am eu hawliadau.
- Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys pwyslais newydd yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi ar gynyddu nifer y bobl hŷn sy'n derbyn eu hawliadau i Gredyd Pensiwn a budd-daliadau eraill, er mwyn lleihau tlodi pensiynwyr.



**Byddai lleihad o 40% o dlodi ymysg pensiynwyr petai pob budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd yn cael ei hawlio**

### Prisiau ynni

Mae cost ynni yn straen fawr ar gyllid llawer o bobl hŷn (ac nid dim ond y rheiny ar incwm isel). Mae cymorth ar gael ar hyn o bryd i helpu pobl i wella effeithlonrwydd eu cartrefi, gan gynnwys trwy gynlluniau Nest ac Arbed, a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae cwmnïau ynni hefyd yn gweithredu'r cynllun Disgownt Cartrefi Cynnes ar gyfer cwsmeriaid sy'n agored i niwed.

### Y camau angenrheidiol

- Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Bil Tai (Cymru) presennol i ddeddfu bod yn rhaid i bob eiddo sy'n cael ei rentu'n breifat gyflawni graddfa D mewn perfformiad ynni cyn y gellir ei ailosod.
- Dylai Llywodraeth y DU ymroi i ddefnyddio incwm o dderbyniadau'r dreth garbon i ariannu rhaglen fawr newydd i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi.



## Sgamiau ariannol

Adroddwyd am fwy na 2,500 o sgamiau i adrannau safonau masnach yng Nghymru rhwng mis Chwefror 2012 a mis Chwefror 2013, er yr amcangyfrifir mai 5% o sgamiau yn unig sy'n cael eu hadrodd. Pobl hŷn yw'r grŵp sy'n fwyaf agored i sgamiau a cham-drin ariannol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymroi i gynyddu nifer y Parthau Dim Galw Diwahoddiad yng Nghymru, ac mae wedi darparu cyllid i gefnogi sefydlu parthau newydd.

### Y camau angenrheidiol

- Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol parhau i ddatblygu Parthau Dim Galw Diwahoddiad i roi diogelwch gwell a mwy o hyder i bobl hŷn yn erbyn sgamiau carreg drws.
- Dylai cwmnïau cyfathrebu weithio gyda'r llywodraeth i sicrhau y rhoddir digon o ddiogelwch i bobl hŷn sy'n agored i sgamiau. Mae hyn yn cynnwys cwmnïau post, cwmnïau ffôn a darparwyr gwasanaeth y Rhyngrwyd.

## Costau trafndiaeth

Gall trafndiaeth gyhoeddus fod yn llinyn bywyd i bobl hŷn ar incwm isel, gan eu helpu nhw i gyrraedd gwasanaethau ac amwynderau hanfodol, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, neu roi cyfle i weld ffrindiau a theulu. Mae teithio rhad ac am ddim ar fysiau i bobl hŷn, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn rhoi cymorth pwysig i bobl hŷn ar incwm isel. Fodd bynnag, mae cyllid ar gyfer y cynllun wedi cael ei leihau'n ddiweddar ac mae rhai llwybrau wedi cael eu tynnu'n ôl yn ystod y misoedd diwethaf.

### Y cam angenrheidiol

- Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru fonitro'n ofalus effaith toriadau i gyllid ar y gwasanaethau bysiau hanfodol sydd ar gael. Mae tocyn bws rhad ac am ddim ond mor werthfawr â'r bysiau sydd ar gael i bobl eu defnyddio, ac mae perygl bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli.

## Cymorth y Dreth Gyngor

Er gwaethaf consesiynau ar gyfer pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain, gall biliau'r Dreth Gyngor gael effaith ar aelwydydd hŷn gan nad yw lleoliad neu faint eu heiddo yn gweddu i'w hamgylchiadau presennol o bosibl. Ar yr un pryd, gall fod nifer o rwystrau ymarferol sy'n eu hatal rhag symud.

### Y cam angenrheidiol

- Mae'r cyfrifoldeb dros gymorth y Dreth Gyngor ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau wedi trosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru ddiogelu hawliadau pobl hŷn cymwys o dan unrhyw system newydd oherwydd yr amgylchiadau penodol y mae aelwydydd hŷn yn eu hwynebu.

**Nid yw 1/3 o bobl hŷn cymwys yn hawlio nac yn derbyn Credyd Pensiwn**

## Costau gofal

I bobl hŷn ag anghenion gofal, gall talu am gostau gwasanaethau yn eu cartrefi eu hunain, neu mewn cartrefi preswyl, fod yn anodd iawn. Cymerodd Llywodraeth Cymru gam ymlaen yn 2011 trwy gyflwyno uchafswm tâl am wasanaethau gofal cartref (£55 yr wythnos ar hyn o bryd).

### Y cam angenrheidiol

- Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno diwygiadau i faint mae pobl yn ei dalu am ofal preswyl yng Nghymru, yn dilyn gweithredu diwygiadau yn Lloegr. Dylai diwygiadau geisio sicrhau nad yw pobl yng Nghymru yn talu mwy am wasanaethau, gyda mynediad cywerth at ofal a chymorth.



Tŷ John Pathy, 13/14 Cwrt Neptune  
Ffordd Blaen y Gad, Caerdydd CF24 5PJ  
Ffôn: 029 2043 1555  
[www.agecymru.org.uk](http://www.agecymru.org.uk)

Mae Age Cymru yn elusen gofrestrig 1128436. Cwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Swyddfa gofrestrig fel yr uchod. ©Age Cymru 2014

Dilynwch ni ar: [facebook.com/agecymru](https://www.facebook.com/agecymru) [twitter.com/agecymru](https://twitter.com/agecymru)